**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y BIL OEDOLION TERFYNOL SÂL (DIWEDD OES)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru mewn perthynas ag unrhyw Fil Aelod Preifat y DU, sydd o dan ystyriaeth yn Senedd y DU, sy’n gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) (“y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Ebrill 2025, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar 4 Gorffennaf 2025 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) pellach ar 23 Rhagfyr 2025.

3. Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Adrodd a’r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ’r Cyffredin ar 20 Mehefin 2025. Cynhaliwyd y Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 23 Mehefin 2025 a chynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad dros ddwy sesiwn ar 12 a 19 Medi 2025. Mae’r Cyfnod Pwyllgor bellach wedi dechrau, a chynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar 14 Tachwedd 2025. Mae hyn yn dilyn ystyriaeth o’r Bil gan Bwyllgor Dethol drwy gydol mis Hydref 2025 ac roedd yn nodi dechrau’r craffu manwl ar gymalau unigol a’r gwelliannau arfaethedig. Mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn ymdrin â gwelliannau a gynigiwyd gan Noddwr y Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yr aseswyd eu bod yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil ar gael yma: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

## Gwelliannau

4. Hyd at 12 Chwefror 2026, mae cyfanswm o 1,247 o welliannau wedi’u cyflwyno yn Nhŷ’r Arglwyddi, a disgwylir i’r nifer hwn gynyddu wrth i’r Bil fynd rhagddo drwy’r Cyfnod Pwyllgor. O’r rhain, mae Noddwr y Bil wedi cyflwyno 66 o welliannau. Nodwyd yn flaenorol fod 5 gwelliant yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac fe’u cofnodwyd mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar 23 Rhagfyr 2025. Ers hynny, mae 4 gwelliant pellach a gyflwynwyd gan y Noddwr wedi’u hasesu fel rhai sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig, ac sydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) a chydsyniad y Senedd felly, os cytunir arnynt gan Dŷ’r Arglwyddi. Mae’r holl welliannau wedi’u cyhoeddi ar wefan y Bil.

5. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ar adeg pan fo’r gwelliannau a nodwyd uchod wedi’u cyflwyno gan Noddwr y Bil ond na chytunwyd arnynt yn ffurfiol gan Dŷ’r Arglwyddi eto. Mae’r dull hwn yn adlewyrchu’r nifer eithriadol o uchel o welliannau sy’n cael eu hystyried ac amserlen estynedig y

Cyfnod Pwyllgor. Y diben wrth osod y Memorandwm ar y cam hwn yw sicrhau bod gan Senedd Cymru arwydd cynnar o gyfeiriad arfaethedig y Noddwr ac mae'n sicrhau bod gan yr Aelodau gyfle ystyrlon i graffu ar y gwelliannau arfaethedig allweddol a fyddai'n rhoi sylw i faterion datganoledig, a chynnal dadl arnynt, os cytunir arnynt gan Dŷ'r Arglwyddi yn y pen draw. Mae hefyd yn lliniaru'r risg na ellid ceisio cydsyniad o fewn yr amserlen seneddol sydd ar gael pe bai'r Memorandwm yn cael ei gyflwyno a'r ddadl yn cael ei chynnal ar ôl iddynt gytuno ar y gwelliannau yn ystod cyfnodau diweddarach y Bil.

6. O ystyried y nifer digynsail o welliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu agwedd bragmataidd tuag at benderfynu pa welliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Fel y nodir yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3, mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar welliannau "allweddol" y noddwr – hynny yw, gwelliannau a gyflwynwyd gan Noddwr y Bil sydd;
   i. yn cyflwyno cymalau newydd, neu
   ii. yn diwygio darpariaethau a oedd yn ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol yn flaenorol.

7. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn wedi'i lunio ar y sail honno a dim ond y gwelliannau hynny a gyflwynwyd gan y noddwr yr aseswyd eu bod yn rhai sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig o dan Reol Sefydlog 29 y mae'n eu cynnwys, ac eithrio'r gwelliant a gyflwynwyd i gymal 4, y mae'r sail resymegol dros ei gynnwys wedi'i nodi ym mharagraffau 20-21. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r holl welliannau a gyflwynir drwy gydol gweddill y cyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi a bydd yn cyflwyno Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach os bydd angen.

8. Wrth ymateb ymhellach i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3, ymrwymais i sicrhau bod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'n benodol yr hyn y gofynnir i'r Senedd gydsynio iddo, gan roi eglurdeb llawn i'r Aelodau cyn y ddadl a gynhelir ar 24 Chwefror.

9. Disgrifir y gwelliannau sy'n ddarostyngedig i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn sy'n gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ym mharagraffau 16 i 19 isod.

**Amcan(ion) y Polisi**

10. Mae a wnelo amcan y polisi â dewis ar ddiwedd oes, i ganiatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn niwtral ynglŷn â'r mater, gan nodi'r confensiwn hirsefydlog ar gyfer materion cydwybod. Dyroddwyd canllawiau i Weinidogion Llywodraeth y

DU ar 3 Hydref 2024 yn nodi y byddai Llywodraeth y DU felly'n parhau i fod yn niwtral ynglŷn â hynt y Bil a'r mater marw â chymorth.

**Crynodeb o'r Bil**

11. Bil Aelod Preifat yw'r Bil, a noddir gan Kim Leadbeater AS yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Arglwydd Falconer o Thoroton yn Nhŷ'r Arglwyddi.

12. Ei nod yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

13. Darparwyd crynodeb o ddarpariaethau'r Bil yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol, ac mae'n dal yn gywir. Dylid darllen y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ochr yn ochr â'r crynodebau hynny, sy'n parhau i adlewyrchu nodweddion allweddol a chwmpas y Bil.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol cyntaf**

14. Ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar 9 Ebrill 2025 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar 4 Gorffennaf 2025, mae'r Bil wedi cwblhau pob un o gyfnodau Tŷ'r Cyffredin ac wedi symud ymlaen i Dŷ'r Arglwyddi. Cafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 23 Mehefin 2025, a chynhaliwyd ei Ail Ddarlleniad dros ddwy sesiwn ar 12 a 19 Medi. Dechreuodd Cyfnod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2025 ac, ar hyn o bryd, disgwylir iddo ddod i ben ar 24 Ebrill 2026. Cyhoeddwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) yn ystod y cyfnod hwn, ar 23 Rhagfyr 2025. Disgwylir i'r Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ddechrau yn fuan ar ôl i'r Cyfnod Pwyllgor ddod i ben.

**Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor y mae angen cydsyniad ar eu cyfer os cytunir arnynt**

15. Mae ein hasesiad o'r gwelliannau allweddol a gyflwynwyd gan Noddwr y Bil rhwng 18 Rhagfyr 2025 a 12 Chwefror 2026, yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, wedi dod i'r casgliad y bodlonwyd y prawf yn Rheol Sefydlog 29 mewn perthynas â gwelliannau i gymalau 4, 54 a 58. Mae'r hyn a ganlyn yn grynodeb o'r darpariaethau hyn y mae angen cydsyniad ar eu cyfer:

16. **Cymal 4(3A) (i'w fewnosod drwy welliant a restrir yn y papur 'Paper HL Bill 112-IX(b) (Supplementary to the Ninth Marshalled List of Amendments)'**. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod is-adran newydd yng nghymal 4 i gyflwyno gofyniad i Brif Weinidog y DU ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penodi'r Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol. Mae'r gwelliant yn mewnosod is-adran newydd ar ddiwedd tudalen 2, llinell 29 fel a ganlyn:

i. “(3A) Before making an appointment under this section, the Prime Minister must consult the Welsh Ministers.”

Effaith y gwelliant hwn yw gosod dyletswydd statudol ar Brif Weinidog y DU i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn unrhyw benodiad, gan gynnwys Gweinidogion Cymru yn y penodiad felly.

17. **Cymal 54(2) (i’w ddiwygio drwy welliant 857CA) – Offerynnau statudol Cymreig.** Mae gwelliant 857CA yn diwygio cymal 54(2) i adlewyrchu’r gyfundrefn statudol newydd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru a grëwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. Mae’r gwelliant yn hepgor yng nghymal 54, tudalen 40, llinell 3 “by statutory instrument” ac yn rhoi yn ei le:

    “(a) in the case of the Secretary of State, by statutory instrument;
    (b) in the case of the Welsh Ministers, by Welsh statutory instrument”

    Mae hyn yn sicrhau y byddai rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf yn dilyn fframwaith Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, sy’n gosod y cysyniad o “offeryn statudol Cymreig” ar sail statudol.

18. **Cymal 54(5) (i’w ddiwygio drwy welliant 872A – Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd ar gyfer rheoliadau adran 42.** Mae gwelliant 872A yn diweddaru cymal 54 ymhellach i adlewyrchu’r gyfundrefn statudol newydd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. Mae’r gwelliant yn hepgor is-adran (5) ar dudalen 40, llinell 11 ac yn rhoi yn ei lle ddarpariaeth newydd sy’n datgan:

    “(5) Regulations made by the Welsh Ministers under section 42 are subject to the Senedd approval procedure (see Part 2A of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4))”.

    Mae hyn yn gwneud y Bil yn gydnaws â’r gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru sy’n deillio o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. Er bod newidiadau o ran y drafftio, nid yw’r gwelliant hwn yn newid lefel y craffu gan y Senedd a gymhwysir i reoliadau a wneir o dan adran 42 (“voluntary assisted dying services: Wales”). Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd, mae’n dal i fod yn ofynnol bod offeryn statudol Cymreig drafft yn cael ei osod gerbron, a’i gymeradwyo drwy benderfyniad gan, Senedd Cymru.

19. **Cymal 58(8) (i’w ddiwygio drwy welliant 905A) – Offerynnau statudol Cymreig ar gyfer rheoliadau cychwyn.** Mae gwelliant 905A yn diwygio cymal 58(8) i

adlewyrchu'r gyfundrefn statudol newydd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru a grëwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025. Mae'r gwelliant yn hepgor yng nghymal 58, tudalen 42, llinell 20 "by statutory instrument" ac yn rhoi yn ei le:

> "(a) in the case of the Secretary of State, by statutory instrument;
> (b) in the case of the Welsh Ministers, by Welsh statutory instrument."

Mae hyn yn sicrhau bod yn rhaid i reoliadau cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn gael eu gwneud fel offerynnau statudol Cymreig, yn gyson â fframwaith Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

**Y sail resymegol dros gynnwys y gwelliant i gymal 4 o'r Bil**

20. Rwy'n cydnabod bod y gwelliant i gymal 4(3A) ym mharagraff 16 yn gorwedd y tu allan i'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddilyn wrth ganolbwyntio ar welliannau "allweddol" y Noddwr – sef y rhai sy'n cyflwyno cymalau newydd neu sy'n diwygio darpariaethau a oedd yn ddarostyngedig i gydsyniad deddfwriaethol yn flaenorol. Er bod y gwelliant hwn yn gorwedd y tu allan i'r dull hwnnw, efallai y bydd yr Aelodau yn rhesymol yn dymuno archwilio'r rhesymau dros yr eithriad hwn wrth graffu. Cafodd y gwelliant hwn ei gyflwyno ar gais Llywodraeth Cymru yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhifau 1 a 2, pan wnaeth y Pwyllgor ymchwiliadau ynglŷn â'r ystyriaeth a roddwyd i sefydlu Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol i Gymru yn unig. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwnnw, ymrwymais i archwilio cyfleoedd i gryfhau'r oruchwyliaeth Gymreig o fewn y Bil. Mae'r gwelliant hwn yn rhoi effaith i'r ymrwymiad hwnnw drwy sicrhau rôl ymgynghori statudol ffurfiol i Weinidogion Cymru wrth benodi ar gyfer y Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol.

21. Am y rheswm hwn, mae'r gwelliant wedi'i gynnwys ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 4 fel newid a ysgogir gan Lywodraeth Cymru sy'n deillio'n uniongyrchol o argymhellion gan bwyllgor y Senedd. Efallai y bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cyd-destun hwn wrth iddynt graffu.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

22. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn a byddaf yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r sefyllfa hon wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy weddill y cyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

23. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 15 uchod, mae angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r gwelliannau i gymalau 4, 54 a 58 yn ôl fy asesiad i.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

24. Nod y Bil hwn yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

25. Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn ei ddefnyddio i gyflawni hyn yw drwy addasu Deddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu gan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

26. Mae cymalau 4(3A), 54(2) a (5) a 58(5), fel y cynigir eu diwygio gan Noddwr y Bil yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Goblygiadau Ariannol**

27. Mae goblygiadau ariannol wedi'u nodi yn asesiad effaith Llywodraeth y DU, fel y nodwyd eisoes yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys costau amcangyfrifedig ar gyfer Cymru a Lloegr, heb unrhyw ddadansoddiad penodol ar gyfer Cymru. Mae'r amcangyfrifon ariannol, yn ogystal â niferoedd y ceiswyr a'r marwolaethau â chymorth a ragwelir ar gyfer Cymru, yn parhau i fod fel yr amlinellwyd yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cynharach hynny. Byddwn yn parhau i ystyried unrhyw oblygiadau ariannol posibl wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy Senedd y DU.

**Casgliadau**

28. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn niwtral ynglŷn â'r mater marw â chymorth yn wirfoddol, ac felly hefyd ynglŷn â phriodoldeb y mater hwn a phriodoldeb ei gynnwys mewn Bil gan y DU.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**17 Chwefror 2026**